**Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife**

**Rheolwr Prosiect**

Bu pâr o weilch y pysgod yn magu yn Nyffryn Glaslyn ers 2004. Yn 2012, sefydlwyd cwmni cymunedol di-elw o'r enw Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife er mwyn bod yn gyfrifol, yn lle'r RSPB, am redeg y ganolfan wylio wrth Bont Croesor ger Porthmadog, gwarchod y gweilch sy'n nythu yn yr ardal a rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd fwynhau'r cyfoeth o fywyd gwyllt a geir yn y Dyffryn.

Mae pethau wedi datblygu'n dda a gall Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife yn awr gynnig cyfle cyffrous i Reolwr Prosiect arloesi ac arwain tîm ymroddedig o wirfoddolwyr, yn ogystal â goruchwylio a rheoli datblygiad y Safle Gwylio wrth Bont Croesor yn ystod 2014 a dechrau 2015. Bydd Rheolwr y Prosiect hefyd yn cydweithio gyda Chyfarwyddwyr BGGW er mwyn hyrwyddo'r prosiect, creu cysylltiadau gydag ysgolion lleol, busnesau, trigolion lleol, y gymuned ar-lein, y cyfryngau, ymwelwyr â'r ardal a chyrff cyllido posibl.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus wybodaeth amgylcheddol gadarn a phrofiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a chymunedau lleol. Yn ychwanegol at hynny, bydd ganddo/ganddi sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol yn ogystal â phrofiad o ddatblygu dulliau newydd o danio diddordeb cynulleidfa eang ac amrywiol yn etifeddiaeth naturiol a diwylliannol Dyffryn Glaslyn. Bydd gofyn iddo/iddi allu gweithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm. Bydd arno/arni angen trwydded yrru yn ogystal â'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd y sawl a benodir yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife.

Am ragor o fanylion, ewch i'n gwefan www.glaslynwildlife.co.uk os gwelwch yn dda.

Ac i gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â David Archer ar 01766 771365.

I wneud cais, anfonwch atom eich CV, manylion i gysylltu â dau ganolwr, a llythyr yn egluro'n fanwl pam y teimlwch eich bod yn addas i'r swydd. Anfonwch y rhain i job@glaslynwildlife.co.uk

Dydd Gwener, 25 Ebrill 2014 fydd y dyddiad olaf i ymgeisio am y swydd.

Cynhelir y cyfweliadau ddydd Mawrth, 6 Mai 2014.

Cefnogir y swydd yn ariannol gan Amgylchedd Cymru a Cyfenter

Mae Cyfenter yn brosiect sy'n cael ei weinyddu gan Menter Môn a'i gyllido gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a Cyngor Sir [Conwy/Dinbych/Gwynedd/Ynys Môn], mae'n cynnig buddsoddiad i ddatblygiad Mentrau Cymdeithasol yng Ngogledd Orllewin Cymru.

**Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife**

| | |
|---|---|
| **Y Sefydliad:** | **Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife** |
| **Y Cyflog:** | **£16,000 (£20,000 pro rata)** |
| **Y Lleoliad:** | **ger Porthmadog, Gwynedd** |
| **Yr Oriau:** | **Amser llawn, 30 awr yr wythnos ar gyfartaledd, gan gynnwys penwythnosau** |
| **Y Contract:** | **Contract Cyfnod Penodedig i'w ymestyn y tu hwnt i Fawrth 2015 os bydd grant ar gael** |
| **Y Dyddiad Cau:** | **Gwener, 25 Ebrill 2014** |
| **Y Wefan:** | www.glaslynwildlife.co.uk. |